**Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd**

**12 Chwefror, 10:30 – 12:00 Ysgol Lewis Pengam, Gilfach, Bargoed CF81 8LJ**

**Yn bresennol:**
**Aelodau'r Tasglu**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies AC (Cadeirydd)
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, Julie James AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Eluned Morgan AC
Ann Beynon, cyn-Brif Weithredwr BT a Chadeirydd Bwrdd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Jocelyn Davies, cyn-Ddirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio
Judith Evans, Pennaeth Coleg y Cymoedd
Dr Chris Jones, Cadeirydd Interim, Addysg a Gwella Iechyd Cymru
Fiona Jones, Cyfarwyddwr, yr Adran Gwaith a Phensiynau
Andrew Diplock, Entrepreneur, Cynghorydd Busnes a Buddsoddwr Angel
Brian Morgan, Athro Entrepreneuriaeth ym Mhrifysgol Met Caerdydd

**Aelodau Bwrdd y Rhaglen**
Maureen Howell, Cydraddoldeb a Ffyniant – Dirprwy Gyfarwyddwr
John Howells, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio (Uwch-swyddog Cyfrifol)
David Rosser, Prif Swyddog Rhanbarthol ar gyfer y De-ddwyrain

**Tîm Tasglu'r Cymoedd**
Deri Ap Hywel, Arweinydd Prosiect Tasglu'r Cymoedd
Phil Lewis, Pennaeth Ffyniant i Bawb
Kelly Clement, Swyddog Tasglu'r Cymoedd (cymryd nodiadau)

**Siaradwyr**
Simon Jones – Cyfarwyddwr Seilwaith Economaidd
Nathan Barnhouse – Cyfarwyddwr y Rhaglen Rheilffyrdd
Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig
Hefin David AC

**Ymddiheuriadau:**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Ken Skates AC
Y Cyng. Andrew Morgan, Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf
Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru
Gaynor Richards, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

**Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau**

1. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (ARD) aelodau'r tasglu i'r wythfed cyfarfod. Diolchodd i aelodau'r tasglu am eu hymrwymiad a'u hamser hyd yn hyn.
2. Croesawodd ARD Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol

Oes i'w chyfarfod cyntaf fel aelod o'r Tasglu.

3. Rhoddodd ARD ddiweddariad ar y cylchlythyron a anfonwyd i 700+ o randdeiliaid (yn bennaf, pobl sydd wedi bod i ddigwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus) a gwahoddodd yr aelodau i feddwl am unrhyw fewnbwn y gallent ei gyfrannu

**Eitem 2: Trafnidiaeth**

4. Cyflwynodd Simon Jones (SJ) bapur ar drafnidiaeth. Mae proses gaffael gystadleuol wedi'i dechrau ar gyfer contract Partner Datblygu a Gweithredwr y Metro a Gwasanaethau'r Rheilffyrdd, ac mae tri chynnig wedi dod i law. Mae'r gwaith o werthuso'r cynigion yn mynd rhagddo a chaiff y canlyniad ei gyhoeddi tua dechrau mis Mai. Yna, bydd y gweithredwr newydd yn cymryd drosodd o fis Hydref ymlaen.
5. Pwysleisiodd SJ yr heriau o weithio gyda'r cwmnïau bysus preifat. Mae angen ystyried sut i gael gwerth gorau am arian gyda'r buddsoddiad o £250m. Mae angen newid ffocws er mwyn darparu trenau o safon, gyda chapasiti mawr, a llwybrau bysus sydd â'r nod o fynd â theithwyr i'r gorsafoedd rheilffordd.
6. Dywedodd ARD: beth bynnag a wnawn, rhaid i'r buddion gyrraedd blaenau'r Cymoedd. Bydd angen gorsafoedd newydd ar reilffyrdd y cymoedd a bydd hyn yn cynhyrchu buddsoddiad yn y dyfodol.
7. Cafwyd trafodaeth am gostau. Roedd SJ yn awyddus i fuddsoddi mewn ffioedd tecach ar gyfer y Cymoedd, gan nodi weithiau bod y llefydd lle mae'r gwaith â'r ffioedd uchaf.
8. Dywedodd aelodau fod angen i drafnidiaeth fod ar gael ar gyfer lle rydych, lle rydych am fod a phryd rydych am fod yno. Efallai y bydd angen ysgogiad i gael pobl allan o'r car? Er enghraifft, cyflwyno tâl atal tagfeydd a phwysleisio materion ansawdd aer.
9. Gwahoddodd ARD aelodau i ymateb drwy lythyr neu dros e-bost i bwysleisio'r blaenoriaethau a sut i fwrw ymlaen â nhw, a hynny erbyn diwedd mis Chwefror.

**Eitem 3: Materion sy'n codi o gyfarfod 30 Tachwedd**

10. Yn y cyfarfod diwethaf o'r Tasglu Gweinidogol, awgrymwyd y dylid rhoi trefniadau mwy ffurfiol ar waith i sicrhau bod gwaith Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â gwaith Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Cyflwynodd David Rosser (DR) bapur, gan ddangos y canlynol:
    - Strwythur cyfredol llywodraethiant Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd;
    - Amryw grwpiau thematig, ynghyd ag Arweinydd y Fargen Ddinesig a chynrychiolaeth Llywodraeth Cymru ar bob fforwm.

**Eitem 4: Unrhyw Fater Arall a Sylwadau i Gloi**

11. Gofynnodd ARD i aelodau'r Tasglu barhau i edrych ar y cynllun cyflawni. Yng nghyfarfod y Tasglu ym mis Gorffennaf, adroddir ar gynnydd yn erbyn y cynllun cyflawni a pha gamau y bydd angen eu cymryd i gyflawni disgwyliadau.
12. Rhoddodd ARD ddiweddariad ar ystyriaeth bellach o ran Canolbwynt Strategol Gorllewin y Cymoedd. Caiff penderfyniad ei wneud ym mis Ebrill p'un a gaiff ei gynnwys ai peidio.

13. Cafodd y cyfarfod nesaf ei amserlennu ar gyfer 23 Ebrill 2018.
14. Unwaith eto, diolchodd ARD i aelodau'r tasglu a'r cyfranwyr eraill i gyd.